# EDT2 14-04 (p4w)

# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**Dyddiad:** 13 Hydref 2004
**Lleoliad:** Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
**Teitl:** Eitem 5: Y Gweithgor Gofal Plant – Adroddiad Interim

## Diben

1. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a phob un o'r Pwyllgorau Rhanbarth i ystyried Adroddiad Interim y Gweithgor Gofal Plant. Bydd y sylwadau yn helpu i ddatblygu adroddiad terfynol y Gweithgor a ddisgwylir ar ddiwedd y flwyddyn.
2. Mae Dr Brian Gibbons fel Cadeirydd y Gweithgor Gofal Plant, wedi addo rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar faterion gofal plant. Bydd gwybodaeth gysylltiedig yn helpu i lywio ystyriaethau'r Pwyllgor mewn perthynas â'i adolygiad o anweithgarwch economaidd yng Nghymru.

## Crynodeb/Argymhellion

3. Yr oedd Adroddiad Interim y Gweithgor Gofal Plant yn destun datganiad yn y cyfarfod llawn ar 7 Gorffennaf. Hwn oedd man cychwyn ymgynghoriad 12 wythnos â'r cyhoedd, a barodd rhwng 7 Gorffennaf a 30 Medi. Anogir aelodau'r pwyllgor i ystyried y cwestiynau a ofynnwyd yn yr Adroddiad Interim ac i roi adborth i helpu'r Gweithgor wrth iddo ddechrau datblygu ei adroddiad terfynol.

## Cefndir

4. Ers i'r Gweithgor gael ei sefydlu ym mis Ionawr 2004, cynhaliwyd 7 cyfarfod hyd yn hyn. Mae'r Gweithgor wedi cael cyflwyniadau ar y canlynol hyd yn hyn ac wedi'u trafod:

- Anghenion a Hawliau'r Plentyn
- Y Cyfnod Sylfaen
- Polisi Rheoleiddio a rôl weithredol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru
- Camau i Adeiladu, Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu
- Hyfforddiant a Chymwysterau yn y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

- Cymorth Busnes a Mentrau Gofal Plant
- Defnyddio Cronfeydd Strwythurol Ewrop i Gynyddu Darpariaeth Gofal Plant yng Nghymru
- Safbwyntiau Grwp Ffocws Rhieni Caerffili
- Ymgynghoriad ar Gredydau treth/Cychwyn Cadarn yn Lloegr ar estyn y Cynllun Gofalu am Blant Gartref (Home Childcarer Scheme)/ y goblygiadau i Gymru
- Gofal plant ac anghenion plant a theuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig
- Ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygu gofal plant o ansawdd dda, fforddiadwy a hygyrch mewn ardaloedd gwledig
- Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned

5. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymuno â chontract â'r Ymddiriedolaeth Gofal Dydd i ddarparu cymorth trwy drafftio'r adroddiadau interim a'r adroddiad terfynol, gan gynnwys adolygu'r cyfarfodydd rhagarweiniol a choladu'r ffynonellau ysgrifenedig presennol ar ofal plant ac arferion gorau. Bydd hyn yn rhoi cysondeb i'r adroddiadau yn fewnol, a bydd yn rhoi ail sicrwydd y bydd modd bodloni dyddiadau cau'r gweithgor ar gyfer adrodd yn ôl. Mae'r Ymddiriedolaeth Gofal Dydd yn adnabyddus ledled y DU am hyrwyddo gofal plant, er mai dyma'r tro cyntaf iddi ymgymryd â gwaith yng Nghymru.
6. Mae'r adroddiad interim yn pwyso a mesur y materion sy'n dod o dan gylch gorchwyl y Gweithgor. Mae'n gwahodd sylwadau ar rai o'r materion allweddol ar gyfer gofal plant ar hyn o bryd, er mwyn darparu sylfaen i'r Gweithgor ddatblygu argymhellion yn ystod misoedd yr Hydref.
7. Cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad symposiwm gofal plant ar ddydd Iau 23 Medi yng Nghaerdydd, ar gyfer aelodau'r Gweithgor Gofal Plant a rhanddeiliaid eraill. Diben y digwyddiad oedd darparu diwrnod gwybodaeth er mwyn i'r Gweithgor ehangu ei wybodaeth a dangos enghreifftiau o arferion da. Yr oedd y rhaglen ar gyfer y digwyddiad yn cynnwys siaradwyr sydd â chryn hygrededd ledled y DU, gan ymdrin â'r agweddau canlynol:

- Dyheadau ar gyfer gofal plant yn gyffredinol
- Asesu effaith gofal plant ar ddatblygiad plant
- Persbectif rhyngwladol datblygu gofal plant
- Integreiddio gofal plant ag addysg y blynyddoedd cynnar, chwarae a chefnogaeth yn y teulu
- Gwaith grwp ynghylch y cwestiwn "A oes arnom angen adeiladau "briciau a morter" er mwyn integreiddio gwasanaethau?"

8. Bydd cyfarfodydd misol y Gweithgor yn parhau rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr. Bydd cyfarfod mis Hydref ar ffurf sesiwn cymryd tystiolaeth i fwydo gwybodaeth y Gweithgor am y materion perthnasol ymhellach. Ar hyn o bryd, bydd y Gweithgor hefyd mewn sefyllfa i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar yr adroddiad interim. Bydd y wybodaeth hon yn helpu i ddatblygu adroddiad terfynol y Gweithgor, a fydd yn destun trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn yn Chwefror 2005.

## Goblygiadau Ariannol

9. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ar hyn o bryd.

## Themâu Trawsbynciol

10. Mae'r Adroddiad Interim yn trafod materion sy'n effeithio ar fusnesau bach, llywodraeth leol, y sector gwirfoddol a darparwyr gofal plant y sector preifat. Trafodir hefyd faterion gan gynnwys amrywiaeth a'r Gymraeg. Tynnir aelodaeth y Gweithgor o lywodraeth leol, adrannau eraill o'r llywodraeth, y GIG, busnesau a'r sector gwirfoddol, gydag aelodau ychwanegol yn cael eu gwahodd i ymuno pan fo'n briodol â thrafodaethau'r Gweithgor.
11. Nid yw'n debygol y bydd Effaith o ran Hawliau Dynol nac ystyriaethau sylweddol mewn perthynas â Datblygu Cynaliadwy.

## Camau i'r Pwyllgor eu Cymryd

12. Gwahoddir y Pwyllgor i drafod Adroddiad Interim y Gweithgor Gofal Plant ac i ddarparu sylwadau a fydd yn helpu i ddatblygu adroddiad terfynol y Gweithgor.

**Dr Brian Gibbons AC**
**Dirprwy Weinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**

Cyswllt: John Abraham, y Gyfarwyddiaeth Plant a Theuluoedd, ffôn: 029 20 823504